

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</b>	<b>CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE</b>
<b>DYDD MAWRTH, 16 IONAWR 2024 am 1:30 y. p.</b>	<b>TUESDAY, 16 JANUARY 2024 at 1:30 p.m.</b>
<b>YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM</b>	<b>COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

## **PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones (*Is-Gadeirydd*), Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

## **Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

## **LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

## **ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie (*Cadeirydd*), Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

## **AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)

Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddus yr Awdurdod.*

## **R H A G L E N**

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### **2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023.

### **3 CYNLLUN STRATEGOL CYFRANOGIAD TENANTIAID 2024-29** (Tudalennau 11 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

### **4 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASED AU TAI 2024-29** (Tudalennau 55 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

### **5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL: GWASANAETHAU TAI** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

### **6 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 105 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgrwtini.

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023

**PRESENNOL:** Cynghorydd Douglas Fowle (Cadeirydd)  
Cynghorydd Geraint Bebb (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)

Cynghorwyr Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Llio A. Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams, Sonia Williams.

Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

#### Aelodau Portffolio

Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid).

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 3)  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 3)  
Pennaeth Gwasanaethau oedolion  
Pennaeth Gwasanaethau Tai  
Pennaeth Democratiaeth (DS)  
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid  
Rheolwr Sgriwtini (AGD)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)  
Swyddog Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Arfon Wyn, Gary Pritchard (Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai), Gillian Thompson (Aelod Cyfetholedig fel Rhiant Lywodraethwr ar gyfer y sector ysgolion cynradd), Mr Rhys H. Hughes (Dirprwy brif Weithredwr)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini)

---

Yn absenoldeb y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd, cafodd y Cynghorydd Geraint Bebb ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor yn unig.

## 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENORO

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH2 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2023/24, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae adroddiad y cerdyn sgorio corfforaethol yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 2 mewn perthynas â materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmer, rheoli pobl a chyllid a rheoli perfformiad

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr aelod sy'n gyfrifol am y portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd bod yr adroddiad yn nodi perfformiad cadarnhaol a chalonogol ar y cyfan ar ddiwedd ail chwarter blwyddyn ariannol 2023/24, gydag 91% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well neu o fewn 5% i'w targed. Amlygwyd nifer o feysydd sydd wedi perfformio'n dda yn cynnwys rheoli gwastraff, priffyrdd, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a digartrefedd. Er nad oedd yn bosib dadansoddi'r dangosyddion perfformiad iechyd corfforaethol yn llawn yn ystod y chwarter hwn, yn ôl y data a oedd ar gael roedd mwyafrif (67%) y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targed yn y maes hwn ac naill ai'n Wyrdd neu'n Felyn.

Mewn perthynas â nifer y dyddiau cyfartalog a gollwyd oherwydd absenoldebau am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE), roedd y Cyngor yn Goch gyda 4.21 o ddiwrnodau wedi'u colli oherwydd absenoldebau fesul FTE yn erbyn targed o 3.82 diwrnod, a hynny'n bennaf oherwydd salwch tymor hir, sydd gyfystyr â chyfradd absenoldebau o 62% ar gyfer Chwarter 2. Roedd y dangosyddion sy'n ymwneud â'r nifer cyfartalog o ddyddiau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gosod unedau y mae modd eu gosod yn y Gwasanaethau Tai a chanran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd yn tanberfformio. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cadw llygaid ar y dangosyddion hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gwella yn y dyfodol ac mae hefyd yn cadw llygaid ar nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen gan nad oedd data ar gael yn ystod yr ail chwarter mewn perthynas â'r gweithgarwch hwn. Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol a rhagwelir gorwariant yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth asesu a chraffu ar berfformiad dangosyddion perfformiad allweddol y Cyngor ar ddiwedd ail chwarter 2023/24, fe wnaeth y Pwyllgor herio'r Aelodau Portffolio a'r Swyddogion ar y materion a ganlyn –

- Gan dderbyn bod 91% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod naill ai'n well neu o fewn 5% i'w targed ar ddiwedd Chwarter 2, gofynnwyd am sicrwydd y bydd y 3 dangosydd sy'n tanberfformio yn gwella. Hefyd, nodwyd bod 12 o'r Dangosyddion Perfformiad yn dangos gostyngiad er eu bod yn Wyrdd ar hyn o bryd a holwyd a ydi hynny'n destun pryder.
- Nid oes unrhyw ddangosyddion i olrhain hynt y gwaith o fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ymrwymiad y Cyngor i ddod yn sefydliad sero net erbyn 2023.
- Nodwyd bod yr adroddiad yn parhau i ragweld gorwariant yng nghyllideb y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno i reoli pwysau cyllidebol.
- Mae'r cerdyn sgorio'n nodi cynnydd yn y diwrnodau cyfartalog a gollwyd oherwydd absenoldebau fesul FTE. Roedd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybod pa gamau sy'n

cael eu cyflwyno i sicrhau bod y dangosydd hwn yn cyrraedd y targed unwaith eto a holwyd a yw Covid-19 yn dal i fod yn ffactor o ran absenoldebau oherwydd salwch.

- Y camau a gymerwyd hyd yma i leihau effaith y tanberfformiad parhaus o ran Dangosydd Perfformiad 36 (canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd).

Ymatebodd Swyddogion ac Aelodau Portffolio i'r pwyntiau trafodaeth gan gynnig y sicrwydd canlynol –

- Mae'r cerdyn sgorio ar ddiwedd Chwarter 2 yn galonogol iawn o ystyried yr amgylchiadau heriol o safbwynt gweithlu'r Cyngor a chymunedau'r Ynys. Fodd bynnag, mae'r tri Dangosydd Perfformiad sy'n tanberfformio, mewn perthynas â grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gosod unedau llety y mae modd eu gosod ac apeliadau cynllunio, yn cael eu hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth pob chwarter ac maent yn cael eu trafod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol i wneud yn siŵr eu bod yn cael sylw penodol. Mae pob dangosydd yn wahanol ac mae rhai o fewn rheolaeth y Cyngor ac eraill yn gallu cael eu dylanwadu gan y Cyngor gyda chyflwr y farchnad a chapasiti hefyd yn ffactor. Mae nifer yr apeliadau cynllunio yn isel gyda dau allan o'r tair apêl yn Chwarter 2 yn cael eu gwrthod, ac o gyfuno hyn â'r canlyniadau ar gyfer Chwarter 1 mae'n golygu fod dau allan o bum apêl wedi cael eu gwrthod. Mae'r llithriad o ran gosod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod yn bennaf oherwydd gwaith yn gysylltiedig â sicrhau bod yr unedau'n bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru gyda rhai angen llawer o waith cyn y gellir eu gosod, ac mae'r math yma o waith yn cymryd amser i'w gwblhau. Mae cyflawni'r grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gallu bod yn broses gymhleth ac maent yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau gofal sy'n cael eu cyflwyno a natur yr addasiadau angenrheidiol ac mae addasiadau syml, gosod canllawiau er enghraifft, yn cael eu trin yn yr un modd â gosod ystafell ymolchi newydd at ddibenion cofnodi. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn dal i annog a chefnogi gwelliant o ran perfformiad y dangosyddion hyn yn ogystal â sicrhau bod ansawdd a pherfformiad y dangosyddion eraill yn cael ei gynnal. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth hefyd yn rhoi mwy o sylw i gyfeiriad y dangosyddion perfformiad ac mae'n monitro'r dangosyddion hynny ble mae'r tuedd ar i lawr.
- Mae'r cerdyn sgorio presennol yn hanesyddol i raddau helaeth gan ei fod yn dilyn hynt perfformiad yn unol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Cyngor blaenorol. Mae Cynllun Cyngor newydd ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028 wedi cael ei fabwysiadu ac mae cerdyn sgorio newydd a fydd yn adlewyrchu ac y gysylltiedig â'r chwe amcan strategol yn y Cynllun newydd, yn cynnwys ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd a dod yn gyngor sero net erbyn 2023, wrthi'n cael ei ddatblygu. Y nod yw dechrau adrodd yn ffurfiol ar y cerdyn sgorion newydd yn Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2024/25. Bydd aelodau'n cael eu diweddarau ar hynt y broses hon a byddant yn cael cyfle i weld y cerdyn sgorio newydd a rhoi eu barn arno yn ystod Chwarter 4 eleni. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i adrodd yn flynyddol ar ei siwrne tuag at ddod yn gyngor sero net erbyn 2030.
- Nid yw'r £368k o orwariant a ragwelir yng Nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 mor arwyddocaol â hynny yng nghyd-destun cyllideb net flynyddol o £175.5m. Er bod lefel y gorwariant yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn Chwarter 1, fe all misoedd y gaeaf effeithio ar wariant wrth i dywydd garw ac oer arwain at gynnydd yn y galw am wasanaeth yn ogystal ag effeithiol ar ffyrdd ac isadeiledd. Y gwasanaethau sy'n wynebu'r pwysau mwyaf yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant ac er bod y sefyllfa wedi gwella o ran gofal cymdeithasol i oedolion, rhagwelir cynnydd yn y diffyg yng nghyllideb y gwasanaethau plant erbyn diwedd y flwyddyn ac mae gwariant yn y ddau faes yma'n ddibynnol iawn ar natur, nifer a chost pecynnau a lleoliadau gofal. Bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu defnyddio i gwrdd ag unrhyw orwariant ond bydd hyn yn lleihau'r opsiynau mewn perthynas â chyllideb 2024/25. Er mai'r nod yw rheoli gwariant a chael cyn lleied o orwariant â phosib

mae'n anodd iawn gwneud hynny gan fod gan y Cyngor ymrwymiadau nad oes modd iddo eu newid yng nghanol y flwyddyn. Er bod gwasanaethau wedi cael eu cynghori i adolygu pob gwariant nad yw'n hanfodol a gohirio unrhyw wariant newydd a pheidio â llenwi swyddi gwag lle bo modd nid oes unrhyw gyfarwyddyd ffurfiol wedi cael ei roi mewn perthynas â'r mater hwn hyd yma.

- Mewn perthynas â gwella presenoldeb a rheoli absenoldebau oherwydd salwch, er bod y targed ar gyfer 2022/23 wedi cael ei gadw ar gyfer 2023/24 mae'r targed bellach yn cynnwys absenoldebau yn gysylltiedig â Covid ac felly bydd hyn, yn anochel, yn effeithio ar yr ystadegau. Mae Rheolwyr a Phenaeithiaid Gwasanaeth wedi ymrwmo i weithredu polisïau absenoldeb salwch ac nid yw'r ffigurau yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn absenoldebau oherwydd salwch tymor hir; mae hon yn broses barhaus ac yn hanesyddol mae misoedd y gaeaf yn heriol iawn o ran y maes hwn. Hefyd, rhaid nodi bod 30% o'r achosion salwch tymor hir yn aciwt lle mae ymyraethau meddygol yn angenrheidiol. Mae pob math o gymorth ar gael i helpu staff ddychwelyd i'r gwaith yn cynnwys gwasanaeth iechyd galwedigaethol, cwnsela a ffisiotherapi, sydd ar gael drwy brosesau mewnol y Cyngor. Yn aml iawn mae staff â Covid yn parhau i weithio o'r cartref oni bai eu bod yn staff rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â chleientiaid bregus. Mae'r Cyngor yn gwneud yn dda mewn perthynas ag achosion o Covid o'i gymharu â chynghorau eraill. Mae a wnelo'r maes hwn â pharhau i weithredu polisïau a defnyddio'r mesurau sydd ar gael i helpu staff ddychwelyd i'r gwaith.
- Mewn perthynas â chanran yr apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod mae'n bwysig rhoi cyd-destun i'r data, sef 3 apêl ar gyfer yr ail chwarter allan o 300 o geisiadau cynllunio. Er bod perfformiad wedi gwella mewn perthynas â'r dangosydd hwn mae'r dangosydd hwn bob amser yn amrywio rhyw fymryn oherwydd natur y broses apelio. Bydd penderfyniadau apeliadau yn cael eu monitro a'u craffu o hyd er mwyn gweld a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n galw am ddehongliad gwahanol o'n polisïau. Bwriedir cynnal hyfforddiant ar apeliadau cynllunio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Wrth drafod tanberfformiad dangosydd 29 (y nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety y mae modd eu gosod ac eithrio unedau anodd eu gosod) cynigodd aelodau'r Pwyllgor bod grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu perfformiad yn y maes hwn yn fanylach na'r hyn y mae amserlen y Pwyllgor yn ei ganiatáu er mwyn gwella perfformiad drwy leihau nifer y dyddiad a gymerir i ail-osod eiddo gwag ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau. Dyfynnwyd nifer o ffynonellau ar-lein lle'r oedd eiddo gwag wedi cael eu paratoi i'w gosod yn fwy effeithlon a lle'r oedd gwelliannau wedi cael eu sicrhau, ac fe awgrymwyd y gellid dysgu gwersi o ffynonellau o'r fath a chan awdurdodau lleol eraill yn ogystal. Cynigwyd hefyd bod grŵp o swyddogion yn rhoi prosiect gorchwyl a gorffen ar waith mewn perthynas â dangosydd 28 (y nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i gyflawni'r grant Cyfleusterau i'r Anabl) er mwyn dadansoddi'r tanberfformiad yn y maes hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2024 gyda chynigion ar gyfer gwella. Eiliwyd y ddau gynnig ac fe'i cefnogwyd gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn gweld unrhyw reswm pam na ellid cefnogi'r cynigion hyn a'i bod hi'n bwysig bod aelodau'n cael cyfle i gyfrannu at weithgareddau a dylanwadu arnynt os ydi'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'n fanteisiol edrych mewn mwy o fanylder arnynt. Aeth ymlaen i ddweud bod cyfyngiadau o ran capasiti a'r galw ar adnoddau craffu ac y bydd yn rhaid cadarnhau'r trefniadau gweinyddol a p'un ai a fydd y grŵp ar gyfer yr aelodau etholedig yn dod o dan gwmpas y maes Craffu neu'r Bwrdd Rhaglen.

Cynghorodd y Pennaeth Democratiaeth bod mwy o gapasiti yn y maes craffu erbyn hyn a bod adolygiad o'r trefniadau craffu ar y gweill o ran y gefnogaeth sydd ar gael i'r tri phanel craffu presennol er mwyn sefydlu arferion da ac felly, yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd capasiti ym maes craffu i gefnogi grŵp gorchwyl a gorffen.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Tai'n croesawu'r cynigion a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r aelodau o'r heriau o ran rheoli'r gwaith o baratoi eiddo gwag ar gyfer eu hail-osod ar yr amod bod unrhyw feincnodi'n digwydd yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig gan fod y ddeddfwriaeth a'r gofynion yn wahanol i awdurdodau lleol yn Lloegr.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch2 Q2 2023/24 ac ar ôl nodi ymateb yr Aelodau Portffolio a'r Swyddogion i'r materion a nodwyd penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Q2 2023/24 sy'n nodi'r meysydd sydd wedi gwella a'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yr amser a gymerir i osod unedau llety y mae modd eu gosod ac apeliadau cynllunio.**
- **Argymhell yr adroddiad ar y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys ynddo i'r Pwyllgor Gwaith**
- **Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen a fydd yn cynnwys rhai o aelodau'r Pwyllgor er mwyn edrych yn fanylach ar Ddangosydd 29 (y nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety y mae modd eu gosod ac eithrio unedau anodd eu gosod) gyda'r nod o wella perfformiad y dangosydd hwn drwy leihau nifer y dyddiad a gymerir i ail-osod eiddo gwag ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn â'r canfyddiadau ochr yn ochr â'r uchod –**
- **Bod grŵp o swyddogion yn rhoi prosiect gorchwyl a gorffen ar waith mewn perthynas â dangosydd 28 (y nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl) fel y gellir dadansoddi'r tanberfformiad yn y maes hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2024 gyda chynigion ar gyfer gwella.**

#### **4 CYNLLUN STRATEGOL TAI GWAG 2023-28**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Tai Gwag ar gyfer 2023 i 2028, i'w ystyried gan y Pwyllgor ac i graffu arno.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Strategaeth gan y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor, a gyfeiriodd at lwyddiant y strategaeth flaenorol sydd wedi llwyddo i ddod â 525 o eiddo yn ôl i ddefnydd ers 2017. Yn yr un modd diben y cynllun dilynol yw sicrhau bod cyn lleied â phosib o dai gwag ac annog perchnogion i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn delio gydag eiddo gwag ac mae'n ffurfio rhan o amrywiaeth o opsiynau tai a fydd yn cynorthwyo i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â pherchnogion eiddo gwag a gwasanaethau eraill i fynd i'r afael â thai gwag ac fe amlygodd yr Arweinydd astudiaethau achos a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a oedd yn dangos rhai o'r ymyraethau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai cymdeithasol.

Wrth adrodd ar gynnwys y cynllun strategol dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod eiddo gwag yn wastraff o adnoddau, yn enwedig yn sgil y pwysau cynyddol ar y farchnad dai a'r farchnad rhentu sector preifat. Nod y cynllun yw gweithio gyda pherchnogion eiddo gwag a'u hannog i ddod â hwy yn ôl i ddefnydd yn ddelfrydol drwy negodi a dod i gytundeb ond gydag adnoddau i gymryd camau gorfodi os oes angen a dim ond pan fydd pob dim arall wedi methu. Mae'r Gwasanaeth Tai yn cydnabod mai gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill yw'r ffordd fwyaf effeithiol o delio gyda'r gwahanol agweddau ar eiddo gwag ac mae'r cynllun strategol wedi cael ei ddatblygu ar sail gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ceisio lleihau costau drwy ddefnyddio'r cymorth ariannol sydd ar gael drwy grantiau a benthyciadau gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor i sicrhau bod yr adnoddau a'r capasiti sydd ar gael, sydd yn weddol fach o'i

gymharu â'r 525 o eiddo y llwyddwyd i ddod yn ôl i ddefnydd ers 2017, yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau.

Wrth ystyried y Cynllun Strategol Tai Gwag codwyd y materion canlynol gan y Pwyllgor –

- Yr heriau o ran annog perchnogion tai gwag yn y sector preifat i ymgysylltu â'r Cyngor.
- Gan nodi bod 77 eiddo wedi cael eu cofnodi'n wag ers dros 10 mlynedd a 128 ers rhwng 5 a 10 mlynedd, roedd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybod faint o eiddo gwag hirdymor a oedd wedi cael eu dychwelyd yn ôl i ddefnydd ers 2017.
- Sut mae'r Cynllun Strategol yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethu Cynllun y Cyngor 2023-28
- Pa mor ddibynnol ydi'r Cyngor ar bartneriaid a chyllid grant allanol er mwyn cyflawni'r Cynllun Strategol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion ynglŷn â threfniadau llywodraethiant y Cynllun mewn perthynas â'i fonitro a'i werthuso ynghyd â'r Cynllun Gweithredu pan fydd wedi'i gyhoeddi.

Darparodd yr Arweinydd a'r Swyddogion gyngor pellach a sicrwydd i'r Pwyllgor fel a ganlyn –

- Wrth baratoi'r Cynllun Strategol anfonwyd arolwg at berchnogion eiddo gwag tymor hir, oedd yn gyfanswm o 542 eiddo. Nid yw hyn yn cynnwys eiddo sy'n derbyn eithriadau'r Dreth Gyngor megis eiddo mewn profeb, perchnogion sy'n derbyn gofal yn rhywle arall neu mewn gofal preswyl/ysbyty, neu berchnogion dan gadwad. Cafwyd cyfradd ymateb o 16% i'r arolwg. Mae'r adborth yn yr ymatebion a derbyniwyd wedi cynnig awgrymiadau defnyddiol iawn ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar yr awgrymiadau hyn ar hyn o bryd. Yn aml iawn mae'r cyswllt cyntaf lle rhoddir cyngor a gwybodaeth yn ddigon i gymell perchnogion i ddod â'r eiddo'n ôl i ddefnydd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cyfeirio perchnogion eiddo gwag at fenthyciadau a grantiau sydd ar gael ac mae'r Cyngor, ynghyd â 16 awdurdod lleol arall yng Nghymru, yn rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Er bod y Cyngor yn gwneud ei orau i gyfathrebu â pherchnogion eiddo gwag, ni all fynd i'r afael â phob eiddo ac mae'n ceisio targedu'r rhai mwyaf problemus.

Bu i'r Pwyllgor nodi canlyniadau'r Arolwg Eiddo Gwag ac roedd o'r farn nad oedd cyfradd ymateb o 16% yn awgrymu nad yw perchnogion eiddo gwag yn dymuno gweithio gyda'r Cyngor.

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i adnewyddu eiddo gwag hir dymor megis yr Hen Glwb Cymdeithasol ym Miwmares. Fodd bynnag, roedd y trosiant mwyaf yn gysylltiedig ag eiddo sydd wedi bod yn wag rhwng blwyddyn a phum mlynedd gan fod angen llawer iawn o ddyfalbarhad i weithio gydag, ac yn aml iawn dod o hyd i, berchnogion eiddo sydd wedi bod yn wag am 10 mlynedd neu fwy. Er bod Premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei godi ar eiddo gwag (gyda rhai eithriadau penodol), mae perchnogion eiddo sydd wedi bod yn wag am beth amser fel arfer yn gwneud cais i'r Swyddfa Brisio i gael tynnu'r eiddo oddi ar y rhestr Dreth Gyngor gan nad ydi'r eiddo'n addas i fyw ynddo mwyach ac felly mae'n anodd dod o hyd i berchnogion wedi hynny.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai bod y Gwasanaeth Tai yn dal i weithio gyda pherchnogion rhai eiddo gwag sydd wedi'u heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor a bod yr eiddo hyn wedi'u cynnwys yn ystadegau'r Gwasanaeth ac felly mae'n bosib bod y data'n wahanol i ddata'r Gwasanaeth Cyllid. Mewn ymateb i awgrym y dylid codi'r premiwm ar eiddo gwag problemus, cynghorwyd y Pwyllgor y byddai'n rhaid creu polisi lleol er mwyn caniatáu categoreiddio eiddo gwag o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Holwyd pe byddai modd i'r Cyngor brynu eiddo gwag hirdymor sydd wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr Dreth Gyngor oherwydd ei gyflwr gan dybio bod hyn yn awgrymu bod y perchennog yn dymuno cael gwared ar yr eiddo cyn iddo ddirywio'n waeth. Cynghorwyd y



Pwyllgor y byddai modd i'r Cyngor ddod i gytundeb gyda'r perchennog i brynu'r eiddo gwag hirdymor, cyn belled bod hynny'n economaidd hyfyw i'r Cyngor. Un enghraifft o ymyrraeth o'r fath yw'r gwaith i ail-ddatblygu Plas Alltran yng Nghaergybi.

- Mae'r Cynllun Strategol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 gan mai un o'i flaenoriaethau yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref ac mae'r cynllun strategol yn helpu i ddiwallu'r angen hwn a thrwy alluogi pobl i aros yn eu cymuned leol mae'r Cynllun hefyd yn cyfrannu at greu cyfleoedd i ddysgu a siarad Cymraeg. Mae'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu drwy'r premiwm eiddo gwag yn cefnogi prynwyr tro cyntaf i brynu eiddo gwag ac mae'r adnodd hwnnw'n cael ei wario'n lleol ac yn cefnogi contractwyr a'r economi leol. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Gymraeg a chyswllt lleol cadarnhawyd, oherwydd bod cymaint o gynlluniau ar gael, bod y meini prawf yn amrywio ond mae bod â chyswllt lleol yn un o'r meini prawf ar gyfer y cynllun sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a'r Cynllun Cymorth Prynu ac mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor.
- Bod y broses o adfywio eiddo gwag yn un y mae'r Cyngor yn ei gwblhau drwy ymgysylltu'n effeithiol â pherchnogion eiddo gwag a'i fod yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru ar gyfer ymyraethau grant a benthyciadau yn ogystal â gweithio gyda gwasanaethau eraill i fynd i'r afael â'r eiddo mwyaf problemus.

**Ar ôl craffu ar y Cynllun Strategol Eiddo Gwag ar gyfer 2023-28 a nodi ymateb Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymhell y Cynllun Strategol Eiddo Gwag 2023-28 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.** *(Fe wnaeth y Cyngorydd Aled Morris Jones atal ei bleidiais)*

**Gweithred – bod y Pwyllgor yn derbyn manylion ynglŷn â threfniadau llywodraethiant a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol Eiddo Gwag pan fyddant wedi cael eu cyhoeddi.**

## **5 SIWRNAI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn nodi hynt y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i atodi ynghyd â Chylchlythyr Oed Gyfeillgar cyntaf Ynys Môn.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion drosolwg o'r gweithgareddau a'r datblygiadau diweddaraf yn y Gwasanaethau Oedolion a oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a chyfeiriwyd at y datblygiadau gwasanaeth diweddaraf mewn perthynas â Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu a Gofal Cartref. Amlygwyd hefyd ymweliad Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru â Chanolfan Dementia Ynys Môn yn Llangedfni a chais llwyddiannus Ynys Môn i ddod yn Aelod o Rwydwaith Cymunedau a Dinasoedd Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol grynodedb o'r gwaith sydd ar y gweill yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynnwys y gwaith i ddod yn Ynys Ymwybodol o Drawma a hynt y Model Ysgol Rithiol yn ogystal â blwyddyn gyntaf gweithgareddau haf y Gwasanaeth Ieuenctid. Soniwyd yn benodol am lwyddiant Maethu Môn Cymru yng Ngwobrau Rhagoriaeth Maethu 2023 wedi i'r tîm gipio'r wobwr "Gofalwyr sy'n berthynas" a "Tîm Gwaith Cymdeithasol".

Wrth nodi'r gweithgareddau Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o'r diweddariad ar hynt a siwrnai'r Gwasanaethau Cymdeithasol fe amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y pwysau sydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion o ran yr her recriwtio, sydd ddim yn unigryw i Ynys Môn, a'r cynnydd yn y galw ac mewn anghenion mwy cymhleth sy'n cael effaith ar gyllidebau'r naill wasanaeth.

Wrth adolygu'r adroddiad trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn –

- Gan nodi a chydabod y datblygiadau hyd yma a chan dderbyn bod misoedd y gaeaf yn debygol o fod yn heriol, roedd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybod beth oedd blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y cyfod nesaf.
- Beth sy'n gyfrifol am y cynnydd yn y galw am wasanaeth yn y naill wasanaeth ac a yw hwn yn faes y dylai'r Panel Sgriwti Gwasanaethau Cymdeithasol edrych arno'n fanylach.
- Goblygiadau defnyddio staff o du allan i Gymru yng Nghartrefi Clyd y Cyngor o ran y gost a'r gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
- Darparu gwasanaethau dementia ac argaeledd y gwasanaethau hynny.
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael adborth ynglŷn â'r camau a gymerwyd a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r cwynion a'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr Adroddiad Blyneddol ar y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23.

Ymatebodd Swyddogion i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor a nodwyd y canlynol –

- Cynghorwyd y Pwyllgor y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ati dros y misoedd nesaf i edrych ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu i gleientiaid, nid er mwyn lleihau'r gwasanaeth a ddarperir ond er mwyn gweld a oes modd eu darparu'n wahanol, e.e. drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a thrwy gydweithio'n agosach â phartneriaid yn y Gwasanaeth Iechyd er mwyn bod yn fwy creadigol wrth ddylunio a darparu pecynnau gofal. Bydd canolbwyntio ar gynigion ataliol drwy ddefnyddio cyllid grant ac ymestyn prosiectau cyfredol i'r perwyl hwn hefyd yn helpu i leihau derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo ac mae un enghraifft o hyn y cynnwys cyfuno gwasanaethau Anabledd Dysgu ac Iechyd drwy gomisiynu gwasanaethau ar y cyd fel y gall staff wneud defnydd gwell o'u hamser a fydd yn arwain at ddarparu gwell gwasanaeth i unigolion yn y pen draw.
- Cadarnhawyd bod y galw am wasanaethau wedi bod yn cynyddu'n raddol ers y pandemig Covid a bod iechyd nifer o bobl yn fwy bregus ers hynny; mae nifer y plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi cynyddu yn ogystal. Hefyd, mae pobl yn byw'n hirach ac felly mae gan fwy o bobl anghenion iechyd yn gysylltiedig â'u hoed. Mae awdurdodau lleol ledled y rhanbarth wedi gweld cynnydd tebyg yn y galw am wasanaethau. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng awdurdodau ac mae'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn destun ymchwil. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn hapus i'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol roi sylw pellach i'r mater.
- Cadarnhawyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflogi staff asiantaeth drwy asiantaeth recriwtio sy'n rheoli'r broses ar ran y gwasanaeth, ac er bod yr asiantaeth y mae'r gwasanaeth yn gweithio â hi fel arfer yn recriwtio'n lleol nid yw hynny bob amser yn bosib ac mae staff yn cael eu cyflogi o ardal ddaearyddol ehangach o bryd i'w gilydd. Mae pawb yn ymwybodol o'r heriau recriwtio parhaus yn y sector gofal ac mae'r gwasanaeth wedi ceisio goresgyn yr heriau hyn drwy gynnig cyflogau cystadleuol i staff, yn cynnwys staff yng Nghartrefi Clyd y Cyngor, a thrwy fod yn rhagweithiol er enghraifft trwy hyrwyddo'r sector gofal fel llwybr gyrfa gyda myfyrwyr yng Ngholeg Menai. Fodd bynnag rhaid gwneud mwy o waith i godi proffil y sector ac edrych ar ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â'r problemau recriwtio unwaith ac am byth. Yn y cyfamser mae staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau yn y rota.
- Cynghorwyd y Pwyllgor bod tri gwasanaeth gwirfoddol sy'n cefnogi pobl â dementia wedi dod at ei gilydd yng Nghanolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa yn Llangefni i greu gwasanaeth asesu cof ar gyfer eu cleientiaid, ac mae cyllid grant wedi cael ei fuddsoddi yng nghartref preswyl Garreglwyd i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ar gyfer pobl â dementia. Mae Canolfan Gofal Dementia yng nghartref preswyl Plas Crigyll. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod dementia yn gyflwr anodd a

chymhleth ac maent yn gobeithio cael ychwaneg o ddarpariaeth gofal dementia yng Ngharreglwyd ac yn y gymuned yn y dyfodol.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi derbyn sicrwydd bod y cynnydd parhaus a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn rhesymol ac amserol.**
- **Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod y cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn amserol a Phriodol.**

**Camau Gweithredu:**

- **Bod y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar y galw cynyddol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn nodi'r rhesymau posib dros y cynnydd.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth i'r Cynghorydd Aled M. Jones ynglŷn â'r staff asiantaeth sy'n gweithio yng Nghartrefi Clyd y Cyngor.**

**6 ENWEBU AELOD I'R PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL / PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un aelod i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol. Darparwyd Cylch Gorchwyl y Panel er gwybodaeth ac i gynorthwyo'r broses ddethol. Mae un sedd wag ar y Panel yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Alwen Watkin a oedd yn un o'r aelodau etholedig a oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

**Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Ieuan Williams i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at y trefniadau ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 a chadarnhaodd, yn dilyn trafodaeth a gyda chytundeb y Cadeirydd, bod cynnig i gynnal dau gyfarfod ar yr un diwrnod ym mis Ionawr (yn lle'r cyfarfod a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 18 Ionawr). Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal Ddydd Mawrth 16 Ionawr a bydd un cyfarfod yn y bore a'r llall yn y prynhawn; un er mwyn ystyried y Gyllideb ar gyfer 2024/25 a'r llall ar gyfer gweddill yr eitemau ar y rhaglen. Roedd yn argymhell Blaen Raglen Waith y Pwyllgor gyda'r newidiadau arfaethedig.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno i'r fersiwn gyfredol o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2023/24 yn amodol ar newid y trefniadau ar gyfer cyfarfod mis Ionawr 2024 a**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Raglen Waith.**

**Cynghorydd Douglas Fowlie  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>16 Ionawr, 2024</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Craffu ar y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid ac argymhell ei gymeradwyo</b>
<b>Cadeirydd Sgriwtini:</b>	<b>Cynghorydd Douglas M Fowle</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Cynghorydd G Pritchard</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Ned Michael</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> <b>Ffôn:</b> <b>E-bost:</b>	Lisa Dundee, Swyddog Strategaeth Tai ac Eiliw Llŷr, Rheolwr Strategaeth Tai, Comisiynu a Pholisi 01248752137 EiliwLlyr@ynysmon.llyw.cymru
<b>Aelodau Lleol:</b>	

### 1 - Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1 argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29**

### 2 – Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28 yn cydnabod Tai fel un o'r nodau strategol er mwyn sicrhau bod 'gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref'.

Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn cyd-fynd â'r themâu canlynol yn Strategaeth Dai'r Cyngor 2022-27:

- Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau.
- Thema 4 - Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai.

### 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

**3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai
- ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

#### **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r adroddiad yn trafod y broses o roi Cynlluncyfranogiad yn ei lle ar gyfer tenantiaid tai o eiddo'r Cyngor. I ba raddau oedd y broses honno'n un cynhwysfawr, priodol a chadarn?
2. Ym mha ffyrdd mae ein tenantiaid wedi dylanwadu ar y ddogfen arfaethedig?
3. Sut mae'r Cynllun arfaethedig yn galluogi'r Awdurdod i wireddu blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028?
4. Pa heriau a risgiau sy'n wynebu'r Cyngor wrth geisio gwireddu'r Cynllun Cyfranogiad?
5. Sut y bwriedir monitro effaith gweithrediad y Cynllun?

#### **5 – Cefndir / Cyd-destun**

##### **1. Cefndir**

Datblygwyd y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod y Gwasanaethau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i ddatblygu a darparu gwasanaethau tai o'r radd flaenaf i bobl Ynys Môn.

Mae gofyniad cyfreithiol ar landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi a datblygu Cyfranogiad Tenantiaid. Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29 yw olynnydd Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2018-2023. Mae Deddf Tai Cymru (2014) yn amlinellu bod yn rhaid i bob landlord cymdeithasol yng

Nghymru gael strategaeth cyfranogiad tenantiaid gyda'r nod hirdymor o sicrhau gwelliannau parhaus mewn perfformiad landlordiaid o ran cefnogi a galluogi tenantiaid i gymryd rhan.

## 2. Llwyddiant y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid blaenorol

O ganlyniad i'r heriau yn sgil y pandemig Covid-19, roedd rhai agweddau ar y strategaeth ddiwethaf a oedd yn anoddach i'w cyflawni oherwydd y cyfyngiadau ar ymgysylltu wyneb yn wyneb. Serch hynny, mae sawl llwyddiant wedi dod i'r amlwg o'r strategaeth flaenorol ynghyd â llwyddiannau newydd, o ganlyniad i ymateb adweithiol y timau i ddiwallu anghenion tenantiaid yn ystod y pandemig.

### Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Hwb Rhithiol Ynys Môn** - Bu Tîm Cyfranogiad a Chynhwysiant Ariannol Gwasanaethau Tai Gwynedd a Môn, Medrwn Môn a Gwasanaethau Tai Môn yn gweithio mewn partneriaeth â sawl canolfan a sefydliad cymunedol ledled Ynys Môn i dreialu prosiect Hwb Rhithiol Môn. Cefnogodd y prosiect bobl yn eu cymunedau i gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau, eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ddigidol a gwella eu sgiliau digidol. Cynhaliwyd y cwrs am 12 wythnos ac roedd yn ymdrin â phynciau fel diogelwch ar-lein, siopa ar-lein a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Enillodd y tîm wobwr TPAS Cymru am y prosiect llwyddiannus hwn.
- **Cymorthfeydd Heddlu a Sioeau Teithiol Tai Môn** – Rhoddwyd cyfle i denantiaid gwrdd â'u Swyddogion Tai a Heddlu Lleol, yn ogystal ag asiantaethau eraill a oedd ar gael i ddarparu cymorth neu arweiniad ariannol, yn ogystal â thrafod unrhyw bryderon, materion, syniadau neu ateb unrhyw gwestiynau.
- **Panel Atgyweirio - Prosiect Lleithder ac Anwedd** - Un o'r darnau diweddaraf o waith i gael ei gyflawni gan y panel atgyweirio oedd dogfen addysgiadol ar fynd i'r afael â lleithder ac anwedd yn y cartref.
- **Prosiectau Rhewgell Gymunedol** – Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw yn 2022, gosodwyd x 10 rhewgell gymunedol mewn hybiau cymunedol lleol / lolfeydd cymunedol tai ledled yr ynys er mwyn cynnig prydau maethlon yn rhad ac am ddim. Darparwyd y prydau gan fwyty Dylan's ac ariannwyd y prosiect trwy raglen caledi Llywodraeth Cymru. Roedd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn gyfrifol am reoli tri o'r lleoliadau hyn a dengys cofnodion bod 2266 o brydau bwyd wedi eu casglu gan denantiaid Tai Môn dros gyfnod o wyth wythnos.
- **Mannau Cynnes/Hybiau** – Yn sgil y cynnydd parhaus mewn costau ynni a chan bod nifer yn poeni am wresogi eu cartref, sefydlodd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid bedwar man cynnes yn ein hybiau cymunedol ledled yr ynys lle darparwyd prydau poeth yn rhad ac am ddim mewn lle cynnes. Cynhaliwyd y sesiynau unwaith yr wythnos am gyfnod o 16 wythnos. Helpodd hyn i fynd i'r afael â'r cynnydd a welwyd mewn achosion o ynysu cymdeithasol a welwyd yn dilyn y pandemig Covid-19, oherwydd bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o'r lolfeydd cymunedol. Llwyddodd preswylwyr i

ailadeiladu'r hyder yr oedent wedi'i golli yn ystod y cyfnodau clo ac ail-ymgysylltu ag aelodau'r gymuned mewn lleoliad cyfarwydd a chynnes.

### 3. Trosolwg o'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid.

Bydd y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn gweithio tuag at gyflawni'r meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol:

1. Ymgysylltu a Hysbysu - Sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n effeithiol a rhannu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Tai
2. Recriwtio, Cadw a Dylanwadu - Grymuso ein tenantiaid i lunio ein gwasanaethau a dylanwadu arnynt.
3. Esblygu ac Arloesi - Gwella ein gwasanaethau yn barhaus er mwyn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid.
4. Sgiliau Hyfforddi a Datblygu - Sicrhau bod Tenantiaid yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan mewn cyfleoedd Cyfranogiad Tenantiaid.

### 4. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023

Mae safonau SATC 2023 yn paratoi'r ffordd ar gyfer yr hyn a ddisgwylir er mwyn bodloni safonau tai cyffredin ym maes diogelwch, inswleiddio a chyflwr eiddo. Mae'r safonau hefyd yn canolbwyntio'n drwm ar Sero Net ac mae ymateb TPAS Cymru i SATC yn amlygu bod ymgysylltu â thenantiaid yn allweddol i gyflawni Sero Net ac yn nodi sut y gall Cymru sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn y flwyddyn 2050, trwy roi lle blaenllaw i ymgysylltu â thenantiaid. Mae'r ymateb hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â thenantiaid cyn ac ar ôl i waith gael ei wneud yng nghartref y tenant. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i landlordiaid fod yn dryloyw ynghylch sut y gallai'r newidiadau edrych a darparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt. Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn amlinellu sut y bydd y Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda thenantiaid ac yn eu diweddau'n barhaus.

### 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn nodi sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n tenantiaid i sicrhau ein bod ni'n cynnal safon ein tai i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

## 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

### 6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010



Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl cwblhau'r AEC.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Bydd yn cynnig cyfle i bobl fyw a chyfrannu at eu cymunedau lleol.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl cwblhau'r AEC.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae adnoddau wedi'u dyrannu/nodi ar gyfer gwahanol fentrau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y CRT 2023-53.

**8 – Atodiadau:**

Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cynllun Busnes 30 mlynedd Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053

# Ynys Môn

THE ISLE OF

# Anglesey



## Cynllun Strategol Gwasanaethau Tai ar Gyfranogiad Tenantiaid 2024 - 2029



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg

This document is also available in Welsh

[www.ynysmon.llyw.cymru](http://www.ynysmon.llyw.cymru)

# Rhagair

## Pam bod angen Cynllun Strategol ar Gyfranogiad Tenantiaid ar y Gwasanaethau Tai?

Tudalen 17



Mae Cynllun Strategol y Gwasanaethau Tai ar Gyfranogiad Tenantiaid yn nodi'r hyn yr ydym ni'n gobeithio'i gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth â'n Tenantiaid, gwasanaethau mewnol y Cyngor a phartneriaid allanol dros y pum mlynedd nesaf, gan sicrhau ein bod ni'n rhoi'n Tenantiaid wrth wraidd popeth a wnawn. Yn ein Harolwg STAR diwethaf (2021) dywedodd 81% o Denantiaid ei bod hi'n hawdd delio â ni a dywedodd 73% ein bod ni wedi gwrandao ar eu sylwadau a gweithredu arnynt.

Pwrpas y Cynllun Strategol yw sicrhau ein bod ni'n adeiladu ar yr ymatebion i'n harolwg STAR diwethaf er mwyn sicrhau bod llais y Tenant yn dylanwadu ar ein gwaith, yn enwedig wrth gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru II. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i gynnwys Tenantiaid wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u cartrefi.

Mae'r Cynllun Strategol yn rhan o fframwaith o strategaethau sy'n tanategu Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun y Cyngor 2023-2028, sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymadau dros y blynyddoedd nesaf.

### Cyd-destun Strategol:

Mae'r Cynllun hwn yn ymateb i nifer o Bolisiau Cenedlaethol megis:

- [Deddf Tai Cymru \(2014\)](#), sy'n gosod rhwymedigaeth statudol ar Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru i fabwysiadau Cynllun Strategol ar Gyfranogiad Tenantiaid
- Cyfrannu tuag at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) drwy'r gwaith yr ydym ni'n ei gyflawni yn ein cymunedau
- Safon Ansawdd Tai Cymru II 2023 a'r gofyniad i gynnwys Tenantiaid

# Llais i Bawb

Tudalen 18

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith Cymraeg?</li> <li>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn?</li> </ul>	
<p>4.2 Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Gynllun Strategol y Gymraeg Fforwm Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016 – 2021 a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?</li> <li>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?</li> </ul>	Bydd, bydd yn cynnig cyfleoedd i bobl weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tai i ddylanwadu ar benderfyniadau a gwella gwasanaethau. Gweler 3.1 uchod.

5 – Yr effeithiau a nodwyd ac a aseswyd	
5.1 Pa effeithiau ac effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau uchod) ynghyd â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb/arwyddocâd tebygol o effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Mesurau lliniaru manwl / opsiynau amgen i leihau effeithiau niweidiol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol:	
Effaith gadarnhaol	Cyfleoedd i bobl weithio i ddylanwadu ar benderfyniadau a gwella gwasanaethau o fewn gwasanaethau tai.

5 – Yr effeithiau a nodwyd ac a aseswyd	
Effaith andwyol	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol.
Cynyddu cyfleoedd i hybu'r Gymraeg e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, Cymraeg yn y gwaith?	Bydd unrhyw wasanaeth a ddarperir mewn perthynas â'r Cynllun Strategol yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn unol â safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor.
Tystiolaeth / data a ddefnyddir i gefnogi eich asesiad:	Cyfrifiad 2011 data am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran

6 - Ymgynghoriad	
6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi am eu gofyn am Effeithiau'r Gymraeg?  Mae canllawiau wedi'u cynnwys yn y rhestr wirio cyn-ymgynghori a chyn-ymgysylltu, sydd ar gael ar MonITor	Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith ar yr effaith gadarnhaol a negyddol ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi colli unrhyw beth?
6.2 Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori? Sut mae grwpiau diddordeb Cymraeg yn debygol o ymateb?	Bydd tenantiaid yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar waith yn eu cartrefi, fel SATC 2023.

6 - Ymgynghoriad	
6.3 Yn dilyn ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael â materion iaith a godwyd?	Dim newidiadau

7 – Ôl ymgynghori, cynigion terfynol a monitro parhaus	
7.1 Crynhoi'ch penderfyniadau terfynol, rhestrwch yr effeithiau tebygol ar y Gymraeg a sut y byddwch yn hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.  Bydd angen i chi gyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesu effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad)	Dim effaith negyddol wedi'i nodi
7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?	Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd templed asesu effaith cydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynlluniwyd ar ôl cwblhau'r asesiad.



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b> <b><u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u></b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>16 Ionawr, 2024</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>I sgrwtineiddio y Cynllun Strategol Tai Gwag ac argymell ei gymeradwyaeth</b>
<b>Cadeirydd Sgrwtini:</b>	<b>Cyng. Douglas M Fowlie</b>
<b>Aelod(au) Portfolio:</b>	<b>Cyng. G Pritchard</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Ned Michael</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> <b>Rhif Ffôn:</b> <b>E-bost:</b>	Elliw Llyr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Cynllun Strategol 01248752137 ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk
<b>Aelodau Lleol:</b>	

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1 argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29.****2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28 yn adnabod tai Tai fel un o'r amcanion Strategol gan 'Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref'.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgrwtini****Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-****3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]**3.4** Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

#### 4 - Cwestiynau Sgrwtini Allweddol

1. Sut mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i wireddu blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028?
2. Beth ydy oblygiadau a ffynonellau ariannu'r Cynllun Strategol dros y 5 mlynedd nesaf?
3. Sut y bwriedir monitro gweithrediad y Cynllun Strategol?
4. Pa risgiau sydd ynghlwm wrth y ffrwd gwaith yma a sut y bwriedir eu lliniaru?

#### 4 – Cefndir / Cyd-destun

##### 1. Cefndir

Datblygwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau i adlewyrchu newidiadau allweddol o fewn polisïau cenedlaethol ar gyfer y cyfnod nesaf wrth symud ymlaen.

##### 2. Llwyddiant y Strategaeth Rheoli Asedau Blaenorol

Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau flaenorol yn cynnwys Rhaglenni Buddsoddi penodol mewn gwahanol ffrydiau gwaith. Mae'r llwyddiannau dros gyfnod y cynllun blaenorol yn cynnwys:

- **Ardaloedd Cymunedol Fflatiau:** Mae gwaith sylweddol i uwchraddio nifer uchel o ddrysau tân wedi'i gwblhau. Yn ogystal, erbyn diwedd 2023/24 byddwn wedi cwblhau gwaith Adrannau Tân a gosod systemau atal tân yn ein 4 bloc tŵr canolig. Cefnogwyd y gwaith pwysig hwn gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- **Contractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Allanol Tŷ Cyfan:** Llwyddwyd i gyflawni nifer o gontractau a denwyd arian allanol drwy Raglen Ôl-ffitio Optimeiddieddio Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, dros oes yr strategaeth blaenorol roedd gwaith cynlluniedig wedi canolbwyntio ar eiddo oddi ar y grid gyda graddfeydd perfformiad ynni is. Esblygodd contractau i gynnwys gosod mesurau ynni adnewyddadwy fel Solar PV, Storio Batri a Systemau Ynni Deallus.
- **Rhaglen Newid Boeleri:** Er yr effeithiwyd yn andwyol gan yr achosion o ailosod boeler Covid, yn unol â chylchoedd bywyd 15 mlynedd, maent ar y trywydd iawn i fod yn gyfredol ddiwedd mis Mawrth 2024.

##### 3. Trosolwg o'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau

Bydd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn gweithio i'r prif amcanion canlynol, sef:

- 1. Data Asedau a Darparu'r Gwasanaeth** - Rydym yn deall ein tai a'n Tenantiaid drwy wneud penderfyniadau gwybodus
- 2. Adolygiad o Asedau**- Blaenoriaethu meysydd hynny lle mae angen buddsoddiad
- 3. Cartrefi Diogel**-Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai
- 4. Cartrefi Cynaliadwy** -Yn wyneb costau ynni cynyddol, costau byw a heriau datgarboneiddio
- 5. Cartrefi o safon dda** ac yn parhau i fod drwy cynlluniau buddsoddi cynlluniedig

#### **4. SATC II**

Fel y dywedodd CIH 'Ers dechrau'r 2000au mae ansawdd tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru wedi bod ar daith drawsnewidiol. Cyflwynwyd creu'r WHQS yn 2002 gyda dyddiad cau cychwynnol o 2012 ond cafodd cynnydd ei rwystro i ddechrau gan amrywiadau o ran sut y dehonglwyd y safon a diffyg data monitro. Gwelwyd y dyddiad cau yn newid i 2020, a chydag effaith y pandemig symudodd hyn wedyn i 2021. Erbyn hyn roedd 99 y cant o dai cymdeithasol yng Nghymru yn cyrraedd y safon'.

Mae iteriad newydd WHQS yn cynnwys wyth cydran wahanol. Er mwyn bodloni SATC 2023, mae'n rhaid i gartrefi:

- Bod mewn cyflwr da
- Bod yn ddiogel ac yn ddiogel
- Bod yn fforddiadwy i'w wresogi a chael cyn lleied o effaith amgylcheddol
- Cegin gyfoes ac ardal cyfleustodau
- Cael ystafell ymolchi gyfoes
- Bod yn gyfforddus a hyrwyddo lles
- Gardd addas Cael gofod awyr agored deniadol

#### **5. Cynhesrwydd fforddiadwy**

Un o brif agweddau'r safon newydd yw'r mesurau i hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy. Bydd angen cyflawni o leiaf EPC A ar gartrefi presennol fel bod cartrefi yn economaidd i'w rhedeg mewn tywydd arferol. Bydd angen i hyn hefyd gyflawni Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR) o 92, yn unol â lleihau allyriadau carbon o gartrefi. Ond eto mae'r safonau wedi'u diweddarau ond yn cynnwys dyddiad cydymffurfio o 31 Mawrth 2030 i gwrdd ag EPC C gyda'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer cyrraedd EPC A i'w osod gan y llwybrau ynni wedi'u targedu.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn nodi ein dull o sicrhau ein bod yn cynnal safon ein tai ac yn cwrdd â'r heriau i leihau allyriadau carbon. Mae'r Cynllun yn nodi'r hyn sy'n bwysig, beth a sut rydym yn mynd i gyflawni hyn.

## **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

### **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC

### **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Bydd yn cynnig cyfle i bobl fyw a chyfrannu at eu cymunedau lleol

### **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AE

## **7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae adnoddau wedi'u dyrannu/adnabod ar gyfer gwahanol fentrau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes HRA 2023-53.

## **8 – Atodiadau**

Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29.  
Asesiad Effaith Cydraddoldeb.  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

## **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 30 mlynedd 2023-2053



# Ynys Môn

THE ISLE OF

# Anglesey

## Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai

2024-2029



Tudalen 60

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg /

This document is also available in Welsh.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

[www.anglesey.gov.wales](http://www.anglesey.gov.wales)

# Rhagair

## Pam bod angen Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai arnom?

Tudalen 61

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn egluro sut fyddwn yn rheoli, cynnal a chadw a buddsoddi yn ein tai ac mae'n berthnasol ar gyfer rheoli asedau holl stoc tai rhent y Cyfrif Refeniw Tai mae Cyngor Sir Ynys Môn yn berchen arnynt.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn rheoli 3,979 o dai gyda'r incwm rent yn bwydo i mewn i'r Cyfrif Refeniw Tai, a'r perfformiad ffisegol ac ariannol yn sylfaen ar gyfer hyfywedd y Cyfrif hwnnw.

**Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau hwn yw sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â buddsoddi mewn eiddo unigol yn seiliedig ar ddeall eu perfformiad ar sail gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, sy'n helpu i gefnogi amcanion corfforaethol ehangach.**

Mae'r Cynllun hwn yn ffurfio rhan o'r ystod o ddatrysiadau tai fydd yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn ein cartrefi a'n cymunedau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n rhaid i'n cartrefi fodloni targedau datgarboneiddio, SATC 2023 a chynnig cartrefi diogel ac addas ar gyfer ein Tenantiaid. Bydd y Cynllun hwn yn darparu fframwaith a bydd Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun Corfforaethol y Cyngor yn cael eu cyflawni o fewn y fframwaith hwnnw.

### Cyd-destun Strategol

Mae'r Cynllun yn ymateb i nifer o Bolisiâu Cenedlaethol megis:

- Deddf yr Amgylchedd Cymru, 2016 a Chynllun Ffyniant i Bawb
- Deddf Rhentu Tai Cymru, 2016
- Safonau Ansawdd Tai Cymru 2012 a 2023
- Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
- Gorchymyn Diwygio Rheoliad (Diogelwch Tân) 2005
- Addewid Llywodraeth Cymru i fod yn net sero erbyn 2050

# Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

Tudalen 62

Bydd y Cynllun o ddiddordeb i amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys:

- Ein Tenantiaid sydd á ddiddordeb yn ansawdd, diogelwch a fforddiadwyedd eu cartrefi
- Rheiny sydd mewn angen tai yn ein hardal (yn denantiaid presennol, neu ddim)
- Drigolion sy'n byw'n lleol o fewn y cymunedau
- Contractwyr a busnesau lleol a all elwa o'r rhaglen fuddsoddi sylweddol
- Aelodau Lleol

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliadau ar gyfer

- Sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu a sicrhau bod y stoc bresennol yn bodloni safonau rheoleiddio ac yn cydymffurfio, sy'n hanfodol ar gyfer derbyn grant Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol gan Lywodraeth Cymru.





# Ein Cartrefi



- Mae'r rhan fwyaf o'n cartrefi yn gartrefi traddodiadol sy'n cynnwys tai sengl, tai pêr, tai teras, byngalos a fflatiau.
- Mae 54% o'n stoc yn dai, mae 18% yn fyngalos, mae 16% yn fflatiau a 12% yn llety gwarchod.
- Ar gyfartaledd, mae rhwng 18,000 a 24,000 o dasgau atgyweirio ymatebol a chylchol yn cael eu cwblhau bob blwyddyn.
- Y gost gyffredinol ar gyfer atgyweirio yn ystod 2022-23 oedd £110.15.
- Cwblhawyd 123 asesiad risg tân mewn ardaloedd cymunedol yn flynyddol.
- Cwblhawyd 2,885 o apwyntiadau gwasanaeth nwy yn ystod 2022-23.
- Roedd 81 cartref yn rhan o'n gwaith cynnal a chadw tai traddodiadol cyfan yn ystod 2022-23.

- Codwyd y rhan fwyaf o'n tai rhwng 1945- 1974 sy'n golygu eu bod wedi'u hadeiladu'n draddodiadol.
- Mae llai na 3% o'n tai wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn draddodiadol.
- Mae 67% o'r stoc tai wedi'i gysylltu â'r prif rwydwaith nwy, mae 20% yn cael eu gwasanaethu gan wres trydanol, mae 7% yn defnyddio olew a 6% yn defnyddio LPG swmp.
- Sgôr EPC cyffredinol presennol ar draws ein stoc: 70 neu Fand C.
- Roedd 77% o'n Tenantiaid yn fodlon hefo gwaith trwsio a cynnal a chadw yn ein Arolwg Star (2021) diwethaf.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

## Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

Tudalen 04

Creu Ynys Môn sy'n iach a  
llewyrchus lle gall pobl  
ffynnu.'

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.




### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.



### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.



### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.



### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

# Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 65



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.



## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.



## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.




# Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Tudalen 66



# Prif feysydd blaenoriaeth


Mae darparu blaenoriaeth strategol, ynghyd â meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym eisiau sicrhau ein bod:

Tudalen 67

Yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol ac yn gwella cartrefi a chymunedau (Thema 2 [Strategaeth Dai 2022-27](#) y Cyngor)

- Yn cyfrannu at yr economi leol (Thema 6 [Strategaeth Dai 2022-27](#) y Cyngor)



# Data Asedau a Darparu'r Gwasanaeth – Rydym yn deall ein tai a'n Tenantiaid drwy wneud penderfyniadau gwybodus:

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae data cyflwr stoc yn allweddol o ran sicrhau bod ein costau buddsoddi yn rymus ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Mae'r data cyflwr hefyd yn cael ei ddefnyddio i baratoi rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer gwaith er mwyn cynnal a chadw a gwella cyflwr y stoc, ymestyn bywyd yr asedau a'u cyfraniadau parhaus i'r Cyfrif Refeniw Tai a chyflawni SATC 2023.

Mae cael gwybodaeth am ein stoc yn allweddol er mwyn deall safon bresennol ein heiddo er mwyn gallu cyflawni gofynion buddsoddi y cynllun busnes 30 mlynedd.

Sicrhau llwyddiant gwedd SATC 2023 drwy ymgysylltu a chyfranogiad gwybodaeth gyda ein Tenantiaid.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Cwblhawyd arolwg ar gyflwr y stoc yn 2022/23 gyda 87% o'r stoc yn cael ei arolygu, ac yn seiliedig ar y wybodaeth hon byddwn yn buddsoddi mewn elfennau allweddol megis ceginau, ystafelloedd ymolchi, ffenestri a gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

Bydd y costau sydd ynghlwm â bodloni SATC 2023 yn cael eu cyfrifo erbyn 31 Mawrth 2025. Unwaith y bydd costau'n cael eu sefydlu, byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl i sicrhau bod ein Cynllun Busnes 30 Mlynedd yn parhau'n hyfyw. Erbyn 31 Mawrth 2027, byddwn yn paratoi Llwybrau Ynni wedi'u Targedu ar gyfer bob un o'n heiddo.

Sicrhau, lle bynnag y bo'n ymarferol, bod pob cartref yn bodloni SAP75 EPC C erbyn 31 Mawrth 2030. Bodloni SATC 2023 erbyn 31 Mawrth 2034.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Gweithredu'r System Rheoli Asedau MRI yn llawn er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gasglu, gan gynnwys elfennau effeithlonrwydd ynni drwy ein Cyfarfodydd Adolygu Prosiect Asedau.

Sefydlu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf ar gyfer elfennau allweddol fydd yn hysbysu Cynllun Cyflawni Rheolaeth Asedau erbyn 31 Mawrth 2025.

Sicrhau bod ein Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn cynnwys prosesau ymgynghori i denantiaid i'w cynnwys yn ystod cyfnod y rhaglen.

# Adolygiad o Asedau – Blaenoriaethu meysydd hynny lle mae angen buddsoddiad

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae nifer o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro sydd angen ymdrin â nhw wrth i ni fynd i'r afael â'r her sydd wedi'i gosod yn SATC 2023, megis datblygu eiddo newydd yn erbyn y buddsoddiad sydd ei angen mewn cartrefi presennol.

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn allweddol ar gyfer cynnig cartrefi ffurdiadwy a bod yn sero net.

Mae gwneud y defnydd gorau o'n hasedau yn allweddol er mwyn cyflawni effeithlonrwydd a byddwn yn ystyried buddsoddi a chyfleoedd ar gyfer dymchwel ac ail-ddatblygu wrth ystyried blaenoriaethau buddsoddi.

Un o'r heriau hynny yw'r cynnydd mewn costau deunyddiau ac adeiladu ynghyd â'r drefn gosod rhent presennol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod yr adnoddau a'r sgiliau digonol gennym i ddarparu'r Cynllun Strategol hwn.

Gwella Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni ein cartrefi yn unol ag argymhelliad TEP ar gyfer bob cartref.

Adnewyddu unrhyw gydrannau allweddol megis bwyleri a cheginau yn unol â'u cylch bywyd disgwylidig.

Ymgymryd a gwerthusiad opsiynau ar gyfer safleoedd ac asedau na all fod yn hyfyw i'w cadw yn y tymor canolig a hir.

Bod ein stoc o fodurdai'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn cynhyrchu mwy o incwm a gwneud y defnydd gorau o dir.



## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Adolygu'r strwythur staffio presennol er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau er mwyn darparu'r rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Sefydlu fframwaith ar gyfer gosod mesuryddion ynni adnewyddadwy megis Paneli Solar Ffotogoltaig a Storbwr Batri

Sefydlu rhaglen 5 mlynedd i adnewyddu ceginau, fydd yn rhedeg rhwng 2024-29 gan gynnwys sefydlu rhaglen adnewyddu cydrannau allweddol eraill.

Ystyried cyfleoedd ar gyfer ail-ddatblygu asedau yn dilyn y gwaith o werthuso opsiynau ar gyfer safleoedd ac asedau a pharhau i ddymchwel modurdai mewn ardaloedd lle mae buddsoddiad yn anhyfyw.

Uchafu cyfleoedd i sicrhau cyllid ychwanegol megis y Rhaglen Ôl-osod Optimeiddio gan LIC i ariannu mesurau gwella.

Bydd ein rhaglenni buddsoddi yn cael eu dylanwadu gan ffactorau allanol fel y farchnad lafur, argaeledd contractwyr a chostau materol.

# Cartrefi Diogel- Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai

## Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Rhentu Tai Cymru 2016.

Bydd hyn yn cynnwys materion HHSRS a gasglwyd yn ystod yr Arolwg Cyflwr Stoc diweddar, yn ogystal â hysbysiadau gan denantiaid mewn perthynas ag atgyweiriadau a gofynion.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

### Iechyd a Diogelwch

Sicrhau bod ein hymateb i bryderon Iechyd a Diogelwch yn cael eu harchwilio a'u hadfer yn brydlon.

### Gwasanaethu Nwy a Thanwydd Solet

Dan Reoliad Nwy 1998, mae'n rhaid cwblhau gwiriad diogelwch blynyddol ar gyfer pob offer nwy, pibwaith a gosodiadau cysylltiedig yn ogystal â phrofi ffliwiau tanwyddau solet yn flynyddol.

### Diogelwch Tân

Mae Asesiadau Risg yn cael eu cwblhau'n flynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i brofi ein hoffer diogelwch tân.

### Diogelwch Trydan

Cwblhau archwiliadau diogelwch trydan bob 5 mlynedd ac ar newid tenantiaeth.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Ymateb i wybodaeth a ddarperir o fewn yr Arolwg Cyflwr Stoc diweddar, yn ogystal â hysbysiadau gan denantiaid mewn perthynas ag atgyweirio a gofynion Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016.

Byddwn yn ceisio cyflawni rhaglen gwasanaethu nwy flynyddol ym mhob cartref drwy ddefnyddio Peirianwyr Plymio a Gwresogi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol.

Adolygu ein Hasesiadau Risg Tân yn rheolaidd ac adrodd ar broblemau cydymffurfiaeth.

Gweithio gyda'n Tenantiaid drwy ein Tîm Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n cael eu rhannu yn brydlon.





# Cartrefi Diogel- Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai

## Pam bod hyn yn bwysig?

Sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda lechyd, Diogelwch a Rheoliadau yn flaenoriaeth.

Tudalen 71

Sicrhau bod gennym brofiad a gwybodaeth ymhlith staff ein Tîm Cynnal a Chadw.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

### Rheoli Asbestos

Mae Rheoliadau Rheoli Asbestos 2021 yn gosod ein dyletswyddau er mwyn cydymffurfio gyda'n cofrestr asbestos.

### Legionella

Rydym yn glynu wrth y Cod Ymarfer Cymeradwyedig L8 ac yn profi systemau dŵr cymunol yn rheolaidd.

### Damp a Llwydni

Mae Tenantiaid yn cael eu hannog i adrodd unrhyw bryderon mewn perthynas â damp a/neu lwydni, ac mae polisi ar waith i ddelio â'r materion hyn.



## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Mae ein cofrestr asbestos yn cael ei chynnal a'i diweddarau fel y bo'n briodol gan y Tîm Cylchol a Chydymffurfiaeth.

Cydymffurfiaeth Legionella yn cael ei fonitro gan y Tîm Cylchol a Chydymffurfiaeth.

Delio'n brydlon gydag adroddiadau sy'n ymwneud â Damp a Llwydni yn unol â'n Polisi.

Sefydlu strwythur cadarn i wireddu holl ofynion Deddfwriaethol Cydymffurfiaeth ac lechyd a Diogelwch. Darparu cyfleoedd Hyfforddi er mwyn annog pobl leol i ymuno â'r tîm Tai fel cyfle gyrfaol.

# Cartrefi Cynaliadwy – Yn wyneb costau ynni cynyddol, costau byw a heriau datgarboneiddio

## Pam bod hyn yn bwysig?

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i fod yn sero net erbyn 2030.

Mae gwresogi fforddiadwy yn un o'r prif agweddau ar y safon SATC newydd, ac mae'n rhaid i gartrefi presennol gyflawni statws A, lle bynnag y bo'n briodol, ar dystysgrif EPC.

Mae LIC wedi cyflwyno gofyniad ar gyfer **Cynllun Gwresogi Fforddiadwy a Datgarboneiddio** fydd yn ymgorffori Asesiadau Stoc Cyfan a Llwybrau Ynni wedi'u Targedu (TEP) cyn pen 3 mlynedd o lansio'r safonau.

Bydd y Cynllun yn nodi sut fydd Awdurdodau Lleol yn cyflawni targedau Cyfradd Effeithlonrwydd Amgylcheddol (EER) o 92 (sy'n cyfartalu i sgôr A EPC) a Chyfradd Effaith Amgylcheddol (EIR) o 92 ar gyfer yr holl stoc tai.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bod a Llwybr Ynni wedi'i Dargedu erbyn 31 Mawrth 2027 ar gyfer bob eiddo.

Sicrhau bod ein cartrefi'n cyrraedd sgôr C ar yr EPC (Cyfradd o 75) erbyn 31 Mawrth 2030.

Bydd angen paratoi TEP ar gyfer pob cartref, fydd yn nodi beth sydd angen ei wneud i'r eiddo hwnnw allu cyrraedd y targedau gofynnol lle bo'n bosibl.

Bydd yn rhaid i'r TEP gynnwys gwybodaeth ar amser y gwelliannau.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Datblygu llwybrau ynni wedi'u targedu drwy ddefnyddio methodoleg EPC a SAP i gefnogi Asesiadau Stoc Cyfan.

Rhoi cynllun 5 mlynedd ar waith er mwyn cyflawni cyfradd ynni o C75 erbyn 2029.

Bydd y Cynllun yn cynnwys Asesiad Stoc Cyfan ar bob eiddo fydd yn amlinellu'r cyfraddau EER ac EIR presennol ar gyfer bob cartref.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol fel Coleg Menai i sicrhau ein bod yn gallu gosod a chynnal mesurau ynni adnewyddadwy fel pwmp gwres ffynhonnell aer.



# Cartrefi o safon dda ac yn parhau i fod drwy cynlluniau buddsoddi cynlluniedig

## Pam bod hyn yn bwysig?

Fel bod ein Tenantiaid yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Roedd 90% o'n Tenantiaid yn fodlon hefo diogelwch eu cartrefi (Arolwg Star 2021).

Bydd tai o safon da angen llai o waith atgyweirio ymatebol gyda costau cynnal a chadw is.

Mae tai o ansawdd wael yn anodd i'w gosod ac mae tai gwag yn golygu nad oes rhent yn cael ei gasglu.

Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned yn nod strategol yng Nghynllun y Cyngor.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Deall beth yw barn ein Tenantiaid am ein gwasanaeth.

Sicrhau bod ein hatgyweiriadau ymatebol yn cyflawni tasgau'n gywir a phrydlon.

Sicrhau bod ein cyfnodau foid mor fyr â phosibl.

Sicrhau ein bod yn defnyddio technolegau cynorthwyol ac addasiadau cartref i hwyluso byw'n annibynnol.

Addasu / darparu cartrefi hygyrch i sicrhau bod ein Tenantiaid yn gallu byw'n annibynnol.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Ymgymryd ag arolygon STAR bob dwy flynedd er mwyn mesur boddhad Tenantiaid a sicrhau ein bod yn cynnig Gwasanaeth Atgyweirio a Chynnal a Chadw sy'n bodloni disgwyliadau Tenantiaid.

Mae *Acuserve Diagnostics* yn darparu gwybodaeth amser go iawn a chostau sy'n monitro perfformiad a chostau.

Cwblhau adolygiad ar berfformiad ein prosesau tai gwag.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn cynnig eiddo llai i denantiaid sydd eisiau symud i gartref llau / haws ei reoli.

Cynnig gwasanaeth Galw Gofal i'r rheiny sydd angen cymorth / sicrwydd i fyw'n annibynnol.


Gwneud y defnydd gorau o'n cyllid er mwyn addasu eiddo gyda chyfleusterau ac addasiadau gyda'n partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

# Llywodraethu: Monitro a Gwerthuso



Er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei wireddu byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethu llym i oruchwylio'r Cynllun ac adrodd ar fecanweithiau, megis:-

Tudalen 74



Bydd y trefniadau'n sicrhau eglurdeb, atebolrwydd, cydlyniaeth a strwythur er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys monitro dangosyddion perfformiad a chynllun gweithredu bob chwarter.

Bydd angen rhoi Polisi Cydymffurfiaeth ar waith erbyn Mawrth 2025 gyda phrif benawdau, fel y nodwyd gan LIC, a'i adolygu'n flynyddol.

Bydd cynnydd yn cynnwys gwybodaeth ar gamau, canlyniadau ac effaith gan dynnu sylw at lwyddiannau a materion.



**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol)** Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
V0.1	Tachwedd 2023	

Tudalen 75

Cam 1: Y Cefndir	
1 - Beth sy'n cael ei asesu?	Cynllun Strategol Rheoli Asedau CSYM 2024-29
2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?	Yn disodli'r Strategaeth Rheoli Asedau blaenorol
3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?	Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn gosod ein dynesiad at sicrhau bod ein cynnal safon ein tai ac yn cwrdd a'r heriau i leihau allyriadau carbon.

<b>Cam 1: Y Cefndir</b>		
4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?	Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu	
5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?	Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu	
6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?	Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu Gwasanaethau Technegol	
7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith?	Strategaeth Tai 2022-27 Mae'r Strategaeth Dai'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gorfforaethol	
8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?  Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir.	Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu	Ydi
	Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi
	Meithrin perthynas dda	Ydi
	Diogelu hyrwyddo hawliau dynol	Ydi
9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1.	ydi	

<b>Cam 1: Y Cefndir</b>	
<p>10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?</p> <p><b>Os yw'r penderfyniad yn un strategol,</b> sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1).</p>	<p>O bosib holl ddinasyddion Ynys Môn ond yn enwedig y rhai sy'n denantiaid. Bydd eu cartrefi'n derbyn buddsoddiad ar ffurf gwaith i wella'r ddarpariaeth wresogi, effeithlonrwydd ynni, diogelwch ac i gynnal ansawdd eu cartref a'u hamgylchedd. Mae grwpiau sydd angen ystyriaeth arbennig yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rhai y mae amddifadedd cymdeithasol yn effeithio arnynt.</p>

<b>Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</b>	
11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?	Any services associated with the offer will be provided in Welsh in accordance with the requirements of the Welsh language standards and the Council's Welsh language policy
12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?	Bydd yn cynnig cyfle i bobl aros o fewn eu cymunedau a chyfrannu a defnyddio gwasanaethau lleol sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i bobl fanteisio ar gyfleon addysg lleol, yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg
13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?	Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu naill ai'n Gymraeg neu ddwyieithog er mwyn caniatáu siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ddiofyn
14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?	Credwn y bydd ac yn cyfrannu ar gyflawni gweledigaeth maes blaenoriaeth tri Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26, y Gymuned, sef; 'Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.'
<p>Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r <b>Canllawiau Asesu Effaith</b> corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisiâu, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu</li> <li>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;</li> </ul>	

<b>Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</b>	
dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .	

<b>Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998</b>	
15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fetu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?	(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).  Ni fyddai'r cynllun strategol yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.  Dylai gefnogi Erthygl 8 – hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol drwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd.

<b>Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</b>		
16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?  (Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3)	Cymru lewyrchus	<b>yndi</b>
	Cymru gydnerth	<b>yndi</b>
	Cymru iachach	<b>yndi</b>
	Cymru sy'n fwy cyfartal	<b>yndi</b>
	Cymru o gymunedau cydlynus	<b>yndi</b>
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<b>yndi</b>
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	<b>Bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i dai</b>

<b>Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth</b>	
Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor	
17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma?	Mae Panel Tenantiaid SATC wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o gynnwys y grwp wrth symud ymlaen hefo'r cynllun hwn.



<b>Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth</b> Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor	
18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod.	Gwybodaeth am tai ar Ynys Môn.
19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?	

### Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. \*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

<b>Y grwp / a warchodir</b>	<b>*Yr effaith debygol</b>	<b>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)</b>	<b>Camau i liniaru effaith negyddol</b>
Oed	<b>Positif</b>	Data Cyfrifiad 2011 Stats Cymru – yn enwedig amcanestyniadau newid poblogaeth.	
Anabledd	<b>Positif</b>	Data Cyfrifiad 2011 Strategaeth yn nodi dulliau o gael mynediad i gymorth fel grantiau ar gyfer pobl a theuluoedd sydd ag anabledd.	
Rhyw	<b>Positif</b>	Data Cyfrifiad 2011	

Y grwp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
		Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal.	
Newid Rhyw	<b>Positif</b>	Nid oes gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal.	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	<b>Positif</b>	Er nad oes gwybodaeth penodol ar gael ar gyfer y grwp hwn mae Polisi Gosod Cyffredin yn adlewyrchu angenhion aelwyd am dy pan fo merch yn feichiog.	
Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd	<b>Positif</b>	Data Cyfrifiad 2011 Stats Cymru Dim ond 1.8% o'r boblogaeth ar adeg 2011 o gefndir ethnig nad yw'n wyn. Roedd y nifer hwn wedi tyfu ers cyfrifiad 2001. Mae'r Strategaeth yn cefnogi agenda cydlyniant cymunedol sy'n cynnwys cydnabod pwysigrwydd bod yn rhagweithiol i annog goddefgarwch a pharch, yn enwedig yn wyneb mudo cynyddol o bosibl.	
Crefydd neu Gred	<b>Positif</b>	Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011 Stats Cymru  Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol.	

Y grwp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
Cyfeiriadedd Rhywiol	<b>Positif</b> <b>Positif</b>	Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011 StatsCymru  Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol.	
Priodas neu bartneriaeth sifil	<b>Positif</b>	Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011 StatsCymru  Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol.	
Yr iaith Gymraeg	<b>Positif</b>	Gweler Asesiad Effaith Iaith Gymraeg	
Hawliau Dynol	<b>Positif</b>	Gweler c15	
Unrhyw fater perthnasol arall			
Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahanu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchoddedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.			

<b>Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)</b>			
Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau	<b>Effaith isel</b>	Mae'r cynllun strategol yn cefnogi fframwaith mesur Safonau Byw: Y gallu i fwynhau safon byw, gydag annibyniaeth	

o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?		a diogelwch, ac i gael gofal am a cefnogi pan fo angen	
--	--	--	--

#### Cam 4 – Canlyniad yr asesiad

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr** - Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig** - Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig** - Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig** - Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

<b>Cam 4 – Canlyniad yr asesiad</b>	
21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3).	<b>Dim newid mawr</b>
22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd,	<b>Dim newid mawr</b>

<b>Cam 4 – Canlyniad yr asesiad</b>	
23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?	<b>Dim newid mawr</b>
24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?  (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).	<b>Dim newid mawr</b>
25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	
26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?	Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith
27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?	Adolygu ar ol 2 flynedd

### Cam 5 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog arweiniol	Amserlen
-----	----------------------------	-------------------	----------


## Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

### Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Pwy sydd yn debygol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalgwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddsbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

### Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisiau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

## Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd

Erthygl 3: Gwahardd artaith

Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch

Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg

Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith

Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull

Erthygl 12: Yr hawl i briodi

Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo

Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg

Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd

Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf



### **Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

#### **Cymru lewyrchus:**

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

#### **Cymru gydnerth:**

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

#### **Cymru iachach:**

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

#### **Cymru sy'n fwy cyfartal:**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

#### **Cymru o gymunedau cydlynus:**

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

#### **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

#### **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

### Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisiâu, Cynllun Strategol au, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

<b>Beth sy'n cael ei asesu?</b>	<b>Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai 2024-29</b>
<b>Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?</b>	<b>Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi Gwasanaethau Technegol – Gwasanaethau Tai</b>
<b>Dyddiad cwblhau'r asesiad</b>	<b>Tachwedd 2023</b>

## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Tudalen 89

<b>1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg</b>	
<p>1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?</li> <li>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi?</li> </ul>	<p>Bydd Mae Gwasanaethau Tai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn gweithio gyda phartneriaid sydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog</p>
<p>1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?</li> <li>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?</li> <li>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?</li> <li>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio?</li> </ul>	<p>Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Cynllun Strategol hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog</p>
<p>1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?</li> <li>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?</li> <li>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?</li> </ul>	<p>Bydd, mae gwaith ar stoc tai yn golygu fod contractwyr lleol yn gallu cael gwaith a all greu cyfleoedd gwaith ar yr Ynys</p>

## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Tudalen 90

<b>1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?</li> <li>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?</li> <li>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur?</li> </ul>	
<b>2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg</b>	
<p>2.1 A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg?</li> </ul>	Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor
<p>2.2 Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?</li> <li>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?</li> <li>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth?</li> </ul>	Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw
<p>2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu</li> </ul>	Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw

## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<b>2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg</b>	
deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau?</li> </ul>	
2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?  <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?</li> <li>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd?</li> </ul>	Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor

Tudalen 91

<b>3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg</b>	
3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?  <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?</li> <li>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?</li> <li>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant?</li> </ul>	Mae'r Cynllun Strategol yn gyd fynd gyda'n Strategaeth Tai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu aros o fewn eu cymuned ac ar yr Ynys drwy nifer o fentrau gwahanol.  Yn ôl y Cyfrifiad, gwelwyd gostyngiad o 27.1% yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 (sef oed gweithio), gostyngiad o 8% yn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar deuluoedd ifanc, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn o leiaf cynnal yr iaith. Mae darparu tai sydd ddigon fforddiadwy a sydd o'r math cywir i gyfarch yr angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaeth Lleol (sy'n leoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn.
3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?	Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw

## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Tudalen 92

<b>3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?</li> <li>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?</li> <li>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?</li> <li>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb?</li> </ul>	
<b>4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, Cynllun Strategol au a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg</b>	
<p>4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?</li> <li>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?</li> <li>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisiau iaith?</li> <li>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod?</li> </ul>	<p>Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw</p>
<p>4.2 Cynllun Strategol au iaith Gymraeg perthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Cynllun Strategol</li> </ul>	<p>Bydd, gan gynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. Gweler 3.1 uchod</p>

## Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<b>4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, Cynllun Strategol au a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg</b>	
<p>Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?</li> </ul>	

<b>5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu</b>	
5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Yr effeithiau cadarnhaol:	Cyfle i bobl gael mynediad i dai ar yr Ynys drwy nifer o ymyraethau
Yr effeithiau negyddol:	Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith?	Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn perthynas a'r Cynllun Strategol yn cael ei ddarparu'n Gymraeg yn unol a safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor.
Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad:	Data Cyfrifiad 2011 am nifer siaradwyr Cymraeg fesul oedran.

## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Tudalen 94

<b>6 - Ymgynghori</b>	
<p>6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?</p> <p>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor</p>	<p>Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi methu rhywbeth?</p>
<p>6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori? Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb?</p>	<p>Bydd Tenantiaid yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am waith y eu cartrefi, fel SATC 2023.</p>
<p>6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd?</p>	<p>Dim newid</p>

<b>7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus</b>	
<p>7.1 Dylech grynhai'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.</p> <p><b>Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).</b></p>	<p>Dim effaith negyddol wedi ei adnabod</p>



## Cyngor Sir Ynys Môn – Tabled ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<b>7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus</b>	
7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith?	<b>Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.</b>

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b> <b><u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u></b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>16 Ionawr, 2024</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Dangosyddion Perfformiad Lleol: Gwasanaethau Tai</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Diweddarau'r Pwyllgor ar gynnydd gyda'r adolygiad gan y Gwasanaeth Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (dyddiau a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau Anabledd)</li> <li>2. Cytuno sgôp a chylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad Sgrwtini o Ddangosydd Perfformiad 29 (amserlen wrth osod unedau llety)</li> </ol>
<b>Cadeirydd Sgrwtini:</b>	<b>Cyng Douglas Fowlie</b>
<b>Aelod(au) Portfolio:</b>	<b>Cyng Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Gwasanaethau Plant, Ieuencid a Thai</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Anwen Davies, Rheolwr Sgrwtini</b>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<b>07971167198</b>
<b>E-bost:</b>	<b>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgrwtini</b>

### 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

#### **Adolygiad Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28**

**A1** nodi'r cynnydd hyd yma gydag adolygiad y Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd)

**A2** nodi'r bwriad i gyflwyno casgliadau ac argymhellion yr adolygiad er ystyriaeth y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ym mis Mawrth 2024 (12/03/2024)

#### **Adolygiad Sgrwtini o Ddangosydd Perfformiad 29**

**A3** gytuno'r cylch gorchwyl a sgôp ar gyfer yr adolygiad Sgrwtini o Ddangosydd Perfformiad 29 (gosod unedau llety)

**A4** gytuno'r trefniadau llywodraethiant i gefnogi'r broses graffu a'r amserlen wrth adrodd ar gasgliadau ac argymhellion yr adolygiad i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol

**A5** Enwebu Aelodau Etholedig o blith y Pwyllgor Sgrwtini i wasanaethu ar y grŵp tasg a gorffen.

### 2 – Cyswilt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Tai yn un o 6 prif amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor → "Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref".

Cynllun y Cyngor: 2023-2028 yw ein prif ddogfen strategol.

### 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
- 3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
  - Atal
  - Integreiddio
  - Cydweithio
  - Cynnwys
- [ffocws ar lesiant]
- 3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
  - y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
  - y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- [ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

### 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

### 5 – Cefndir / Cyd-destun

#### 1. Cefndir

1.1 Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod diwethaf<sup>1</sup> roi ystyriaeth i berfformiad y Cyngor ar ddiwedd Ch2: 2023/24 gan edrych yn benodol ar y Dangosyddion Perfformiad canlynol a oedd yn tan berfformio yn y Gwasanaethau Tai:

- **Dangosydd Perfformiad 28** – nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- **Dangosydd Perfformiad 29** – nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod).

1.2 Yn sgil ei ystyriaeth, gwelwyd y Pwyllgor hwn yn penderfynu ar y camau gweithredu canlynol:

- **Dangosydd Perfformiad 28** – bod Grŵp swyddogion yn cwblhau prosiect tasg a gorffen i ddadansoddi y tan berfformiad ar gyfer y dangosydd yma ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2024 gyda chynigion ar gyfer gwella.

<sup>1</sup> Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023

- **Dangosydd Perfformiad 29 – bod grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu o blith aelodau'r Pwyllgor i adolygu perfformiad mewn mwy o fanylder gyda'r brîff i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd drwy leihau nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ail osod tai gwag ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau ac ochr yn ochr â'r ffrwd gwaith ar Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd).**

## **2. Adolygiad Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28**

Isod, mae diweddariad ar gynnydd hyd yma ar yr adolygiad gan y Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd):

- 2.1 Mae'r Gwasanaeth Tai yn y broses o adolygu'r Polisi Grant Cyfleusterau Anabledd bydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth mai Mawrth 2024.
- 2.2 Mae cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu lunio bydd yn cael ei gytuno gyda'r yr Asiantaeth berthnasol bydd yn gosod cyfrifoldeb y cwmni o ran gweithredu fel Asiant ar gyfer gwaith addasiadau drwy'r gyfundrefn Grant Cyfleusterau Anabledd ynghyd a lefelau perfformiad disgwylidig.
- 2.3 Yn sgil prinder contractwyr sydd ar gael ac er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o Gontractwyr ar gyfer ymgymryd a gwaith addasiadau trefnwyd digwyddiad cwrdd a'r prynwr ar y 4ydd o Ragfyr. Llwydwyd i ddenu 13 o Gontractwyr newydd a hyderwn bydd hyn yn galluogi i waith gael ei wneud yn gyflymach ac yn gwella'r perfformiad.

## **3. Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29**

3.1 **Cylch gorchwyl, sgôp a threfniadau llywodraethiant** – prif amcan y Pwyllgor Sgriwtini wrth sefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen oedd creu'r cyfle i edrych mewn manylder ar drefniadau a pherfformiad cyfredol yr Awdurdod wrth osod unedau tai Cyngor. Ynghlwm mae fersiwn ddrafft y cylch gorchwyl (**Atodiad 1**)

3.2 **Aelodaeth** – bydd Aelodau yn ymwybodol o'r angen i enwebu rhai o'u plith i gynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Tasg a Gorffen y bwriedir ei sefydlu i edrych ar berfformiad unedau tai'r Awdurdod Lleol. Nid yw aelodaeth y Panelau Sgriwtini nag ychwaith unrhyw Grŵp Tasg a Gorffen yn ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol<sup>2</sup>. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen arfaethedig ynghlwm (**Atodiad 1**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

## **4. Materion ar gyfer eu hystyried**

**Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini:**

- 4.1 Nodi'r cynnydd wnaed gan swyddogion wrth adolygu perfformiad Dangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd)

<sup>2</sup> Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

- 4.2 Gadarnhau cylch gorchwyl / sgôp ac amserlen gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen arfaethedig
- 4.3 enwebu Aelodau Etholedig i wasanaethu ar y Grŵp Tasg a Gorffen arfaethedig.

## **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

### **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

### **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

### **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Dim yn berthnasol yn achos y mater hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol o'r broses o ddiwygio unrhyw bolisiau neu drefniadau gwaith.

## **7 – Goblygiadau Ariannol**

Amherthnasol

## **8 – Atodiadau**

1. Cylch gorchwyl Grŵp Tasg a Gorffen yr Adolygiad Sgrwtini o Ddangosydd Perfformiad 29 (Atodiad 1)

## **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgrwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

## CYLCH GORCHWYL GRŴP TASG A GORFFEN SGRIWTINI: GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon (CG) yn gosod allan y trefniadau gweithio a ffiniau gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Awdurdod Lleol, sydd i'w sefydlu.

### 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 21/11/2023 yn ystyried adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar fonitro perfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 2: 2023/24 (cerdyn sgorio corfforaethol). Yn ystod y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini benderfynu fel a ganlyn:

**Dangosydd Perfformiad 29 – bod grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu o blith aelodau'r Pwyllgor i adolygu perfformiad mewn mwy o fanylder gyda'r briff i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd drwy leihau nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ail osod tai gwag ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau ac ochr yn ochr â'r ffrwd gwaith ar Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd).**

### 2. RÔL, PWRPAS A SGÔP



Bydd rôl y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini'n cynnwys edrych mewn mwy o fanylder ar:

- Drefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer gosod unedau tai, deall natur y maes gwasanaeth y mae wnelo'r Dangosydd Perfformiad (DP29) ag ef, sydd ar hyn o bryd yn Ambr ar gerdyn sgorio perfformiad y Cyngor:

***Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)***

- Adolygu'r camau lliniaru a ddarparwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth i wella perfformiad gwael DP29
- Adolygu'r rhesymeg y tu ôl i'r targed a osodwyd a thrafod targed posibl ar gyfer y dyfodol
- Ystyried unrhyw ddatblygiadau yn y Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Gosod Tai / Eiddo Gwag.

Gwneir hyn trwy edrych mewn mwy o fanylder ar:

- i. Bolisi a Gweithdrefnau Gosod Unedau Tai cyfredol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi'n:
  -  Galluogi'r Awdurdod i ail osod uned tai'n effeithiol ac effeithlon
  -  Cael ei weithredu.
- ii. Y broses o osod unedau tai
- iii. Yr adnoddau staffio ynghlwm wrth y broses gosod unedau tai.

## METHODOLOEG

Cynigir defnyddio'r techneg DCDDGC (SREDIM yn y Saesneg, techneg "method study"):

- Dewis – y broblem. Mae hyn eisoes wedi ei wneud
- Cofnodi – y broses sydd angen ei gwella
- Dadansoddi – edrych yn fanwl ar bob cam o'r broses a pha welliannau gellir eu gwneud
- Datblygu – prosesau newydd mwy effeithiol
- Gweithredu – cyflwyno'r gwelliannau
- Cynnal – y ffordd newydd o weithio.

## CANLYNIADAU A DDYMNIR:

- Posibilrwydd o adolygu'r Polisi a Gweithdrefnau Gosod Unedau Tai – yn enwedig ar gyfer tai gwag
- Rhoi camau penodol ar waith i wella perfformiad lleol yn erbyn Dangosydd Perfformiad 29
- Cytundeb ynghylch y trefniadau monitro cynnydd
- Darparu adroddiad ar gasgliadau'r adolygiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys:

### 3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig:

- Cyng – i'w gadarnhau
- Cyng – i'w gadarnhau
- Cyng – i'w gadarnhau
- Cyng – i'w gadarnhau.

### 3.2 Aelodaeth – Swyddogion:

- Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai
- I'w gadarnhau, Gwasanaethau Tai
- Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini.

Efallai y bydd gwaith y Grŵp yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a/neu Swyddogion o feysydd Gwasanaeth eraill fynychu'r Grŵp Tasg a Gorffen.

## 4. CADEIRIO

Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn ethol Aelod i gadeirio.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

- 5.1 **Amllder Cyfarfodydd** – Sefydlwyd y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini i gwblhau darn penodol o waith ar ran y rhiant bwyllgor, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (cyfeirir at baragraff 2, uchod). I'r perwyl hwnnw, rhagwelir y bydd angen trefnu cyfres o gyfarfodydd yn ystod Ionawr i Ebrill 2024, i'w cynnal yn fisol
- 5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthynasol i Grwpiau Tasg a Gorffen Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.



## **6. COFNODION CYFARFODYDD A THREFNIADAU ADRODD**

- 6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu papurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a bydd yn darparu cofnod o gyfarfodydd y Grŵp Tasg a Gorffen
- 6.2 Bydd yr Uned Sgriwtini'n paratoi adroddiad drafft o waith y Grŵp Tasg a Gorffen – er cymeradwyaeth gan Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol.

## **7. AMSERLEN**

Bydd ffiniau amser i waith y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini ac anelir i gwblhau'r gwaith rhwng Ionawr a Mawrth 2024 a pharatoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ebrill 2024.

DRAFFT

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b> <b><u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u></b>	
<b>Pwyllgor:</b>	<b>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>16 Ionawr, 2024</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24</b>
<b>Cadeirydd Sgriwtini:</b>	<b>Cyng Douglas Fowlie</b>
<b>Aelod(au) Portfolio:</b>	<b>Amherthnasol</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini</b>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<b>07971167198</b>
<b>E-bost:</b>	<b>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini</b>

### 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

### 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

### 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

#### 4 - Cwestiynau Sgrwtini Allweddol

### 5 – Cefndir / Cyd-destun

#### 1. Cefndir

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgrwtini effeithiol llywodraeth leol<sup>1</sup>. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgrwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgrwtini:

- i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
- ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

#### 1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda<sup>2</sup>

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgrwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbyn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgrwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

#### 2. Cyd-destun Lleol

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

<sup>1</sup> A Cuning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

<sup>2</sup> A Cuning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad:** rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwrtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwrtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwrtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwyllo'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwrtini:** mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwrtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

- Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
- Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
- Parhau i esblygu.

### 3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwrtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf<sup>3</sup>

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwrtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwrtini).

## 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

### 6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

### 6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

### 6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

<sup>3</sup> Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwrtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023

Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried.

#### **7 – Goblygiadau Ariannol**

Amherthnasol

#### **8 – Atodiadau**

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2023/24

#### **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023 → Ebrill, 2024**  
**[Fersiwn dyddiedig 05/01/24]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**

Mae yna [Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini](#) wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.

Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: [AnwenDavies@ynysmon.gov.uk](mailto:AnwenDavies@ynysmon.gov.uk) ]

Tudalen 109

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
<b>Mai, 2023 (23/05/23)</b>	<b>Mai, 2023 (23/05/23)</b>
Ethol Cadeirydd: 2023/24	Ethol Cadeirydd: 2023/24
Ethol Is-gadeirydd: 2023/24	Ethol Is-gadeirydd: 2023/24
<b>Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4</b>	<b>Mehefin, 2023 (21/06/23)</b>
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23	Y Gymraeg <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23</li> <li>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd</li> <li>Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg</li> </ul>
Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23
Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	Cynllun Rheolaeth Cyrchfan
Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24	Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1</b>	<b>Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg</b>
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24	Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid	Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23
Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23	Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg

<b>PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</b>	<b>PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO</b>
Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid	Siarter Craffu Addysg
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi'i ddiddymu</b>	<b>Hydref, 2023 (17/10/22)</b>
	Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23
	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23
	Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
	<b>Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – Cyfarfod Ychwanegol</b>
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
<b>Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2</b>	<b>Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn</b>
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24	Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028
Strategaeth Tai Gwag: 2023/28	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23
Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd
Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol	
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Ionawr, 2024 (16/01/24) – Cyllideb 2024/25 (bore)</b>	<b>Ionawr, 2024 (18/01/24)</b>
Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynnig drafft cychwynnol	Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid	Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Ionawr, 2024 (16/01/24) (prynhawn)</b>	
Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid	
Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)	
Dangosyddion Perfformiad Lleol: Gwasanaethau Tai – Adroddiad Cynnydd	



PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	
<b>Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25</b>	<b>Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg</b>
Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – referniw a chyfalaf	Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid	Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu
	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23
	Cynllun Cydraddoldeb: 2023/2027
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Mawrth, 2024 (12/03/24) - Ch3</b>	<b>Mawrth, 2024 (13/03/24)</b>
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24	Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd
Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054	Diogelu Corfforaethol
Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028	
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24
<b>Ebrill, 2024 (16/04/24)</b>	<b>Ebrill, 2024 (17/04/2024)</b>
Asesiad y Farchnad Dai Leol	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24

### Eitemau i'w rhaglennu

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Môn-ddaliadau	Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025)
Cyfrifiad 2021	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
	Medrwn Môn
	Craffu ar Bartneriaethau
	Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu

	Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr
	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehafin, 2024)
	Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehafin, 2024)
	Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai
	Porthladd Rhydd Ynys Môn
	Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn
	Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwitini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223)